MESUR TLODI DIFRIFOL YMYSG PLANT YN Y DU 2010

Papur briffio gan Achub y Plant

Ionawr 2010

Papur briffio polisi Cymru

CRYNODEB

Mae Achub y Plant yn ddig bod plant a theuluoedd yn byw mewn tlodi difrifol yn y DU. Mae ein hadroddiad diweddaraf, *Measuring severe child poverty in the UK*, a gomisiynwyd gan y New Policy Institute, yn datgelu bod 1.7 miliwn o blant ar draws y DU yn byw mewn tlodi difrifol – tua 13% o holl blant y DU. Yng Nghymru mae'r ffigwr hwn yn uwch nag yn holl genhedloedd eraill y DU – yn 15%, sef 96,000 o blant sy'n byw mewn tlodi difrifol yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith fod cynnydd wrth leihau nifer y plant sy'n byw mewn tlodi difrifol nid yn unig wedi pallu, ond ei fod wedi mynd am yn ôl. Mae nifer y plant sy'n byw mewn tlodi difrifol wedi tyfu dros y cyfnod 2004/05-2007/08, o 11% i 13% o'r holl blant (rydym yn amcangyfrif bod tlodi difrifol ymysg plant wedi aros ar 1.7 miliwn yn 2009). Mae'r twf hwn wedi digwydd wrth i dlodi plant yn gyffredinol ehangu yng Nghymru.

Gostyngodd tlodi plant yn gynt yng Nghymru dros hanner cyntaf y ddegawd ddiwethaf nag yn unrhyw ran arall o'r DU; ond mae'r ffigyrau diweddaraf yn awgrymu i'r duedd droi am yn ôl yn ystod ail hanner y ddegawd, ac mae tlodi plant yn parhau i dyfu.

Ystyr byw mewn tlodi difrifol yw byw ar lai na £12220 y flwyddyn (yn achos cwpwl sydd ag un plentyn). Mae hyn yn golygu bod teuluoedd tua £113 yn brin bob wythnos o'r hyn sydd ei angen ar gyfer bwyd, trydan a nwy, ffonau, biliau eraill, dillad, golchi, trafnidiaeth a gofal iechyd, heb sôn am ddodrefn, gweithgareddau ar gyfer y plant ac eitemau hanfodol eraill.[1]

Mae plant a rhieni yn colli allan ar hanfodion beunyddiol fel bwyd a dillad, ac ni allan nhw fforddio'r pethau y mae'r rhan fwyaf o deuluoedd yn eu cymryd yn ganiataol, fel dathlu pen-blwydd neu gael gwyliau teuluol byr.

Achub y Plant
Save the Children

Mae'r adroddiad yn egluro'r ffactorau risg penodol ar gyfer tlodi difrifol ymysg plant. Yn arbennig mae yna debygrwydd gweddol uchel o dlodi difrifol ymysg plant mewn cartrefi sydd heb waith. Mae plant mewn cartrefi sydd heb waith yn fwy tebygol o fod mewn tlodi difrifol na thlodi nad yw'n ddifrifol.

Mae'r dadansoddiad hwn yn cadarnhau neges glir – mae tlodi difrifol ymysg plant yn bryder o bwys ac mae angen gweithredu pellach er mwyn mynd i'r afael â'r mater. Mae'n amlwg nad yw polisi'r llywodraeth ar hyn o bryd yn cyrraedd nac yn cefnogi'r grŵp yma o blant, sydd â'r angen mwyaf am help. Ar ben hynny, ni fydd y nod o ddileu tlodi plant unwaith ac am byth yn cael ei wireddu oni bai bod sylw yn cael ei roi ar fyrder i gwrdd ag anghenion y plant tlotaf a'u teuluoedd.

Wrth i ni dynnu at y terfyn o safbwynt y gôl interim o haneru tlodi plant erbyn 2010, rydym yn wynebu twf mewn gwirionedd yn y lefelau o dlodi difrifol ymysg plant.

Mae pob plentyn yn haeddu cyfle teg mewn bywyd, mae pob un yn cael ei eni'n gyfartal ac ni ddylid gadael neb ar ei ôl. Nid yw'n deg bod unrhyw blentyn yn cael ei fagu mewn tlodi difrifol. Er mwyn mynd i'r afael â thlodi difrifol ymysg plant, mae Achub y Plant yn galw am weithredu yn y meysydd canlynol:

1. Cael gwared ar y rhwystrau i gyflogaeth rhieni.
2. Sicrhau nad yw'r tlotaf yn talu'r pris am yr argyfwng economaidd.
3. Sicrhau bod y system trethi a budd-daliadau yn gweithio ar gyfer y teuluoedd tlotaf.
4. Sicrhau nad yw'r tlotaf yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau.
5. Torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol.

Tlodi difrifol ymysg plant yn y DU

Mae Achub y Plant yn ddig bod teuluoedd a phlant yn byw mewn tlodi difrifol yn y DU. Rydym yn credu bod angen i bolisi'r llywodraeth fynd i'r afael ag anghenion y plant a'r teuluoedd sydd yn y tlodi dyfnaf, ochr yn ochr â'r rhai sydd agosaf at y llinell dlodi, os yw'r nod o ddileu tlodi plant unwaith ac am byth i'w gyflawni.

Measuring severe child poverty in the UK yw'r adroddiad diweddaraf mewn cyfres a gomisiynwyd gan Achub y Plant ar y mater hwn.[2] Gan ddefnyddio'r ystadegau diweddaraf, mae'r adroddiad, a gwblhawyd gan y New Policy Institute, yn gosod ar glawr beth yw'r darlun cyflawn o safbwynt tlodi difrifol ymysg plant ar draws y DU. Dadansoddodd yr adroddiad diweddaraf y data am dueddiadau lefelau tlodi difrifol ymysg plant dros gyfnod o bedair blynedd, ar lefel y DU a'r gwledydd datganoledig. Yn ogystal, defnyddiwyd data o gyfnod o dair blynedd o 2005/06 hyd 2007/08 i ddarparu cyfartaleddau treigl (fel bod maint y sampl yn ddigonol er mwyn dadansoddi tlodi difrifol mewn manylder), er mwyn dadansoddi nodweddion plant sy'n byw mewn tlodi difrifol.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith nad oes cynnydd o ran lleihau nifer y plant sy'n byw mewn tlodi difrifol. Mewn gwirionedd, mae'r niferoedd yn codi, ac felly mae tlodi difrifol ymysg plant yn parhau'n achos pryder mawr. Mae'r papur briffio hwn yn amlinellu canfyddiadau allweddol yr adroddiad ac yn datgan pam bod angen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru ganolbwyntio'u hymdrechion ar y plant tlotaf yng Nghymru.

Beth yw tlodi difrifol ymysg plant?

Mae effeithiau negyddol cael eich magu mewn tlodi yn hysbys. Ond nid yw'r profiad yr un peth i bob plentyn sy'n cael ei fagu mewn tlodi. I rai, mae'n fwy difrifol. Mae tlodi difrifol yn disgrifio tlodi dyfnach, mwy dwys.

Nid oes unrhyw fesur swyddogol o dlodi difrifol ymysg plant. Mae Achub y Plant yn credu bod angen mesur dyfnder y tlodi y mae plant a theuluoedd yn ei brofi. Mae mesur dyfnder neu ddifrifoldeb tlodi yn elfen allweddol wrth ddeall dwyster y tlodi y mae rhai plant a theuluoedd yn ei brofi. Felly, mae Achub y Plant yn hyrwyddo mesur tlodi difrifol ymysg plant gan ddefnyddio mesur sy'n cyfuno incwm ac amddifadedd materol. Daw'r data gan yr Arolwg Adnoddau Teulu, a gyhoeddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Yn ôl ein diffiniad ni, mae plant mewn tlodi 'difrifol' os ydyn nhw'n byw mewn:

Cartref sydd ag incwm o lai na 50 y cant o'r canolrif (ar ôl costau tai), a ble mae oedolion a phlant yn mynd heb o leiaf un hanfod sylfaenol, a naill ai'r oedolion neu'r plant neu'r ddau grŵp yn mynd heb o leiaf ddau hanfod sylfaenol.[3]

Mae hyn yn golygu bod teuluoedd sy'n byw mewn tlodi difrifol yn cadw deupen llinyn ynghyd ar lai na £12,220 y flwyddyn (ar gyfer cwpwl sydd ag un plentyn). Mae hynny'n cyfateb i lai na £33 y diwrnod ar gyfer yr holl hanfodion sylfaenol fel bwyd, biliau a dillad. Ar ben hyn, mae plant a rhieni yn colli allan ar y pethau y mae nifer o deuluoedd yn eu cymryd yn ganiataol, fel dathlu pen-blwydd neu gymryd gwyliau o wythnos o'r cartref. [4]

Canfyddiadau allweddol

Tlodi difrifol ymysg plant yng Nghymru

Mae'r adroddiad yn datgelu bod 96,000 o blant yn byw mewn tlodi difrifol yn 2007/08 ar draws Cymru. Mae hyn yn golygu bod traean o'r plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn byw mewn tlodi difrifol. Tyfodd tlodi difrifol ymysg plant o 13% o holl blant Cymru yn 2004/05 i 15% yn 2007/08 ar draws Cymru, er bod maint y sampl yng Nghymru yn llai fel cyfran o'i gymharu â'r cenhedloedd eraill, felly mae'n anodd dweud hyn yn gwbl bendant. Fodd bynnag, mae'r twf hwn wedi digwydd ochr yn ochr â thwf cyffredinol o ran tlodi plant yng Nghymru, a gallwn dderbyn twf cyfatebol o ran tlodi difrifol ymysg plant yng Nghymru o'r dadansoddiad hwn.

Ciplun ar draws y DU

Mae cyfran y plant sydd mewn tlodi difrifol yn weddol debyg ar draws pedair gwlad y DU. Yn 2007/08, roedd 13% (1.5 miliwn) of blant yn Lloegr yn byw mewn tlodi difrifol, 15% (96,000) yng Nghymru, 10% (43,000) yng Ngogledd Iwerddon a 9% (95,000) yn Yr Alban. Mae'r tueddiad o flwyddyn i flwyddyn yn dangos bod tlodi difrifol wedi tyfu yng Nghymru a Lloegr ers 2004/05. Ni fu newid yn nifer y plant sy'n byw mewn tlodi difrifol yng Ngogledd Iwerddon ac yn Yr Alban. Mae'r dosbarthiad hwn o dlodi difrifol ar draws y DU yn debyg i ddosbarthiad y tlodi plant 'nad yw'n ddifrifol'.

Mae tebygrwydd cymharol uchel o dlodi difrifol ymysg plant sy'n byw yn Llundain. Yn Llundain, fel rhanbarth, mae'r gyfran uchaf o blant sy'n byw mewn tlodi difrifol (mae tua 20% o blant yn Llundain mewn tlodi difrifol), sef tua un o bob pump o'r plant sydd mewn tlodi difrifol yn y DU.

Nodweddion/ffactorau risg

Mae'r ffactorau risg a gysylltir â thlodi plant yn waeth i'r rhai sydd mewn tlodi difrifol. Tynnwyd sylw at y ffactorau risg allweddol yn ein hadroddiad yn 2007. Mae'r dadansoddiad diweddaraf yn dangos bod y ffactorau risg allweddol yn aros yr un fath. Mae yna debygrwydd gweddol uchel o hyd o dlodi difrifol yn y DU ymysg:

- plant mewn cartrefi heb waith
- plant i famau (neu dadau yn achos rhieni unigol) sydd â chyrhaeddiad addysgol isel
- plant mewn cartrefi un rhiant
- y rhai sy'n byw mewn eiddo rhent cymdeithasol
- plant mewn teuluoedd ag oedolyn/oedolion anabl
- plant o grwpiau lleiafrifoedd ethnig
- plant mewn teuluoedd mawrion o bedwar neu ragor o blant
- y rhai â rhieni ifanc (o dan 25)
- plant nad oes gan eu rhieni unrhyw gynilion/asedau
- plant iau (o dan 5)

Mae rhai o'r grwpiau hyn yr un mor debygol o fyw mewn tlodi difrifol ag ydyn nhw o fod yn union o dan y llinell dlodi (nad yw'n ddifrifol). I ategu hyn, mae traean o'r plant sy'n byw mewn tlodi yn byw mewn tlodi difrifol. Ac eto, roedd hanner y plant mewn tlodi:

- sydd mewn cartrefi un rhiant mewn tlodi difrifol.
- sy'n byw mewn eiddo rhent mewn tlodi difrifol.
- nad oedd gan eu rhieni unrhyw gymwysterau mewn tlodi difrifol.

Trafodir rhai o nodweddion allweddol y ffactorau risg hyn mewn mwy o ddyfnder isod.

i) Cysylltiadau gwan â'r farchnad lafur

Roedd y risg o dlodi difrifol ar ei uchaf i blant mewn teuluoedd lle nad oedd yr oedolion yn gweithio. Roedd tua dwy ran o dair (60%) o blant mewn teuluoedd lle roedd yr oedolion yn ddi-waith, a tua dau o bob pump (40%) o'r rhai mewn teuluoedd lle nad oedd yr oedolion yn gweithio am resymau eraill (e.e. yn hawlio Budd-dal Anallugrwydd neu Gymhorthdal Incwm) mewn tlodi difrifol.

Mewn gwirionedd, *mae plant mewn cartrefi heb waith yn fwy tebygol o fod mewn tlodi difrifol nag mewn tlodi nad yw'n ddifrifol.* Roedd dros hanner yr holl blant mewn tlodi difrifol mewn teuluoedd lle nad oes unrhyw oedolyn yn gweithio. Roedd hanner yr holl bant mewn teuluoedd a oedd yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith mewn tlodi difrifol. Felly, tra bod mwyafrif y plant mewn tlodi nad yw'n ddifrifol yn byw mewn cartrefi ble mae rhywun yn gweithio, mae mwyafrif y rhai mewn tlodi difrifol yn byw mewn cartrefi heb waith.

Mae'r canfyddiadau yn dangos hyn: po gryfaf yw'r cysylltiad â'r farchnad lafur, lleiaf yw'r risg o dlodi difrifol ymysg plant. Mewn teuluoedd sy'n gweithio'n llawn mae canran y plant sydd mewn tlodi difrifol bron yn sero, ond mewn cartrefi di-waith, mae tua 60% o blant mewn tlodi difrifol. Fodd bynnag, dylid nodi hyn: tra bod y risg o fyw mewn tlodi difrifol yn isel i blant sydd â rhieni sy'n gweithio'n rhan amser (gyda naill ai un oedolyn yn gweithio a'r llall ddim, neu bod yr oedolion ond yn gweithio'n rhan amser), mae 10% o blant yn y cartrefi hynny yn byw mewn tlodi difrifol.

Mae goblygiadau polisi pwysig i'r canfyddiadau hyn. Gan fod mwyafrif y plant mewn tlodi difrifol yn byw mewn cartrefi heb waith, mae angen rhoi blaenoriaeth i gael gwared ar rwystrau i gyflogaeth i rieni sy'n byw mewn tlodi. Lle gall rhieni weithio, mae bod â rhiant sydd mewn gwaith yn ffordd allweddol allan o dlodi. Gall rhieni wynebu nifer o rwystrau i'w cadw rhag cychwyn gwaith a pharhau i weithio. Er enghraifft, ymdopi â'r pontio i waith, y 'cylch tâl isel, dim tâl' wrth i bobl symud o ddiweithdra i waith ag iddo dâl isel ac yn ôl eto, cael cydbwysedd rhwng dyletswyddau gofal a gwaith (mater arbennig i rieni sengl), diffyg cyfatebiaeth rhwng eu sgiliau ac argaeledd gwaith addas. Ar ben hyn, mae'r budd-daliadau allan o waith y mae'r rhan fwyaf o deuluoedd yn eu derbyn o fod yn ddi-waith yn isel iawn, gan adael teuluoedd yn byw ymhell o dan y llinell dlodi. Mae unrhyw deulu sy'n dibynnu ar fudd-daliadau allan o waith dros gyfnod hir yn ei chael hi'n anodd cael deupen llinyn ynghyd.

ii) Anghyfartaledd addysgol

Roedd ychydig dros chwarter (28%) y plant nad oedd gan eu mam (neu eu tad yn achos plant sy'n byw mewn teuluoedd un rhiant) unrhyw gymwysterau mewn tlodi difrifol. Roedd hanner y plant mewn tlodi, nad oedd gan eu rhieni unrhyw gymwysterau, mewn tlodi difrifol. Mae'r cysylltiadau rhwng cyrhaeddiad addysgol gwael a thlodi plant yn hysbys. Felly nid yw'n syndod bod addysg yn ffactor allweddol o ran y tebygrwydd o ddioddef tlodi difrifol.

iii) Rhieni sengl

Mae cryn dipyn yn fwy o risg y bydd teuluoedd un rhiant mewn tlodi na theuluoedd o barau. Maen nhw'n aml yn wynebu rhwystrau arbennig o safbwynt ennill gwaith a pharhau i weithio. Mae mwy o risg o dlodi difrifol gan deuluoedd un rhiant. *Roedd chwarter y plant mewn cartrefi un sengl mewn tlodi difrifol, cyfradd sydd dros bedair gwaith yn uwch nag yn achos plant mewn teuluoedd o barau.* Roedd bron i 50% o blant mewn tlodi difrifol mewn teuluoedd un rhiant. Drwyddi draw, mae tua 40% o blant sydd mewn tlodi yn byw gyda rhieni sengl.

iv) Anabledd

Gall ffactorau sy'n gysylltiedig ag anabledd, fel y costau ychwanegol sydd ynghlwm ag ymdopi gydag anabledd neu salwch arbennig, costau byw uwch a chostau gofal, achosi neu waethygu'r tlodi a brofir gan unigolion a theuluoedd. *Roedd plant mewn cartrefi ag oedolyn anabl bron i ddwywaith yn fwy tebygol o fod mewn tlodi difrifol â'r rhai mewn cartref heb riant anabl.*

Roedd bron i 1 o bob 4 plentyn mewn tlodi difrifol yn byw gydag oedolyn anabl. Mae anabledd yr oedolion yn y cartref yn effeithio'n fwy ar y risg o dlodi difrifol nag anabledd y plentyn. Mae bod â phlentyn anabl yn y teulu yn fwy o risg ar gyfer byw mewn tlodi nad yw'n ddifrifol, nag o dlodi difrifol.

v) Ethnigrwydd

Mae'r risg o dlodi difrifol yn amrywio'n fawr yn ôl ethnigrwydd, (er bod maint y sampl ar gyfer rhai grwpiau yn eithaf bychan). Mae tua thraen y plant mewn cartrefi Bangladeshaidd neu Bacistanaidd mewn tlodi difrifol, ynghyd â chyfran debyg o blant mewn cartrefi Affricanaidd Du. Mae plant Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Caribïaidd Du neu Affricanaidd Du yn fwy tebygol o fod mewn tlodi difrifol nag mewn tlodi nad yw'n ddifrifol. Er mai plant Prydeinig Gwyn yw mwyafrif y rhai mewn tlodi difrifol (dros 70%), mae plant Pacistanaidd, Bangladeshaidd ac Affricanaidd Du tua thair gwaith yn fwy tebygol o fod mewn tlodi difrifol na phlant Gwyn.

vi) Ffactorau risg eraill

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer o ffactorau risg eraill ar gyfer byw mewn tlodi difrifol:

- *Plant nad oes gan eu rhieni unrhyw gynilion/asedau.* Roedd tua 25% o blant mewn cartrefi heb gynilion mewn tlodi difrifol. Roedd bron i dri chwarter y plant mewn tlodi difrifol yn byw mewn teuluoedd heb unrhyw gynilion o gwbl.
- *O ran daliadaeth, roedd plant mewn eiddo rhent, boed yn eiddo'r awdurdod lleol, cymdeithas dai neu'n eiddo preifat ar rent, lawer yn fwy tebygol o fod mewn tlodi difrifol na'r rhai mewn cartref sy'n eiddo i'r preswyliwr.*
- *Plant sy'n byw mewn teuluoedd mawrion (o bedwar neu ragor o blant)*. Roedd tua 25% o blant mewn teuluoedd o bedwar neu ragor o blant mewn tlodi difrifol, o'i gymharu â rhwng 10% a 15% mewn teuluoedd eraill.
- *Mae plant i rieni ifanc (o dan 25 oed) yn fwy tebygol o fod mewn tlodi difrifol na thlodi nad yw'n ddifrifol.* Roedd tua 35% o blant sydd â phenteulu sydd o

dan 25 oed mewn tlodi difrifol. Mae'r risg o dlodi difrifol a thlodi nad yw'n ddifrifol yn lleihau wrth i oedran y rhieni gynyddu.

- *Mae plant iau ychydig yn fwy tebygol o fod mewn tlodi difrifol na phlant hŷn.* Roedd tua 15% o blant o dan 5 mewn tlodi difrifol (o'i gymharu â thua 10% ar gyfer y rhai rhwng 5 a 9 oed neu 10 a 14). Roedd tua hanner y plant mewn tlodi difrifol o dan 10 oed, a hanner dros 10 oed.

Tlodi difrifol ymysg plant heddiw

Mae'r dirwasgiad wedi cael effaith ddinistriol ar blant mewn tlodi (mae tua 130,000 yn rhagor o blant mewn cartrefi heb waith ac mae nifer y cartrefi ble mae'r holl oedolion yn gweithio wedi gostwng o tua 250,000). Mae'r New Policy Institute wedi mynegi y bydd y dirwasgiad wedi gyrru 100,000 yn rhagor o blant i dlodi difrifol, ond y bydd newidiadau i fudd-dal plant a chredydau treth yn ystod y cyfnod hwn yn debygol o ddiddymu effaith y dirwasgiad ar y niferoedd o safbwynt tlodi difrifol. Disgwylir felly y bydd tlodi difrifol ymysg plant yn 2009/10 yn dangos lefelau tebyg i ffigyrau 2007/8.

Mae disgwyl i'r economi ddechrau tyfu eto yn y chwarter ariannol hwn; fodd bynnag nid oes disgwyl i ddiweithdra gyrraedd penllanw tan yn nes ymlaen yn 2010 neu efallai yn 2011.[5] Am fod y risg o fyw mewn tlodi difrifol yn uwch ymysg y plant sy'n byw mewn cartrefi heb waith, rydym yn bryderus y bydd tlodi difrifol ymysg plant yn cynyddu wrth i ddiweithdra gynyddu ymhellach.

Casgliadau ac argymhellion

Mae'r dadansoddiad hwn yn cadarnhau neges glir – mae tlodi difrifol ymysg plant yn parhau yn destun pryder mawr ac mae angen gweithredu pellach er mwyn mynd i'r afael â'r mater. O ganlyniad i natur ddyfnach, dwysach tlodi difrifol, mae'n debygol y bydd yn fwy costus y pen i ddileu tlodi plant erbyn 2020 os yw graddau'r tlodi difrifol ymysg plant yn aros ar y lefelau hyn.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod mesurau i fynd i'r afael â thlodi difrifol ymysg plant wedi'u targedu at y teuluoedd hynny sydd yn wynebu'r risg fwyaf. Mae angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod polisi ac adnoddau i fynd i'r afael â thlodi plant yn cael eu llunio gan ystyried y rhai mwyaf bregus.

Yng Nghymru mae Achub y Plant yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddileu tlodi plant erbyn 2020, a gwneud yr ymrwymiad hwn yn ofyniad cyfreithiol drwy'r Mesur Tlodi Plant a thrwy'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru).
Yr Arolwg Adnoddau Teulu yw'r cyfrwng pennaf ar gyfer creu ystadegau ar dlodi plant, ac eto yng Nghymru mae maint y sampl fel cyfran yn llai nag mewn unrhyw wlad ddatganoledig arall, gan olygu bod lled y gwall yn uwch yn achos unrhyw ddadansoddiad, ac nad yw rhywfaint o ddadansoddi'n bosibl oherwydd cyfyngiadau maint y sampl. Mae Achub y Plant yn galw ar y llywodraeth i ariannu sampl Cymru o'r

Arolwg Adnoddau Teulu i'r un safonau ag yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan gynyddu maint y sampl ar unwaith.

Fodd bynnag, rydym yn bryderus na fydd y nod hwn yn cael ei wireddu oni bai fod sylw'n cael ei roi ar fyrder i ddiwallu anghenion y plant tlotaf a'u teuluoedd. 2010 yw'r man hanner ffordd ar y daith tuag at ddileu tlodi plant. Eto, er gwaetha'r cynnydd cynnar, wrth i ni agosáu at y gôl interim o haneru tlodi plant, mae tlodi difrifol ymysg plant, ochr yn ochr â thlodi plant, yn tyfu.

Mae pob plentyn yn haeddu cyfle teg mewn bywyd, mae pob un wedi'i eni'n gyfartal ac ni ddylid gadael neb ar ei ôl. Nid yw'n deg bod unrhyw blentyn yn byw mewn tlodi difrifol. Mae mynd i'r afael â thlodi difrifol ymysg plant yn gofyn am weithredu mewn nifer o feysydd polisi er mwyn cefnogi'r rhai sy'n dioddef tlodi difrifol, ac er mwyn rhwystro plant a theuluoedd rhag byw mewn tlodi difrifol. Nid yw tlodi difrifol ymysg plant yn cael lle amlwg o fewn y drafodaeth wleidyddol bresennol; fodd bynnag mae'n ymhlyg, er enghraifft gyda'r pwyslais ar y rhai nad ydyn nhw'n gweithio, a budd-dal i waith. Mae angen rhoi rhagor o bwyslais ar y rhai sy'n dioddef y tlodi gwaethaf. Rydym yn credu y dylai'r strategaethau tlodi plant a ddatblygwyd gan gyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, o ganlyniad i'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), ganolbwyntio ar dlodi difrifol ymysg plant, a'r grwpiau hynny sydd yn wynebu risg arbennig o fod mewn tlodi difrifol. Mae Achub y Plant yn galw am weithredu brys mewn nifer o feysydd polisi.

Er mwyn mynd i'r afael â thlodi difrifol ymysg plant, mae Achub y Plant yn galw am weithredu yn y meysydd canlynol:

1) Cael gwared â'r rhwystrau i gyflogaeth rhieni
Gan fod mwyafrif y plant mewn tlodi difrifol yn byw mewn cartrefi heb waith, dylid rhoi blaenoriaeth i gael gwared â'r rhwystrau i gyflogaeth i rieni sy'n byw mewn tlodi gan gynnwys:

i. Cynyddu argaeledd gofal plant gan sicrhau 100% o gost gofal plant i rieni ar gredyd treth i deuluoedd sy'n gweithio, a chyflwyno gofal plant am ddim i rieni nad ydyn nhw'n gweithio ac sydd am hyfforddi.
ii. Gwneud mwy i gefnogi rhieni sydd am weithio mewn swyddi rhan amser, yn benodol drwy godi'r trothwy incwm a enillir lle gall rhieni hawlio budd-daliadau llawn.
iii. Cynyddu cyfleoedd hyfforddi i rieni sydd angen rhoi hwb i'w sgiliau.
iv. Cefnogi dulliau arloesol o greu swyddi mewn cymunedau difreintiedig.

2) Sicrhau nad yw'r tlotaf yn talu'r pris am yr argyfwng economaidd.
Wrth i Lywodraethau Cynulliad Cymru a'r DU geisio mynd i'r afael â'r diffyg ariannol, mae'n hanfodol nad yw newidiadau i'r system trethi a budd-daliadau yn cael effaith cymharol uwch ar y teuluoedd sydd ar yr incwm isaf, a bod y gwasanaethau sydd o werth mawr i deuluoedd incwm isel yn cael eu gwarchod trwy:

i. Beidio â chodi lefel TAW y tu hwnt i 17.5%.
ii. Sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r trothwy ar gyfer talu credydau treth yn gwarchod ac yn hybu lefelau incwm y rhai sy'n byw mewn tlodi difrifol.
iii. Gwarchod gwasanaethau fel Dechrau'n Deg a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar gefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi, ac yn lleihau anghyfartaledd.
iv. Sicrhau cynnwys gweithredu penodol i fynd i'r afael â thlodi *difrifol* a *pharhaus* yn Strategaeth Tlodi Plant y Cynulliad Cenedlaethol.

3) Gwneud i'r system trethi a budd-dal weithio ar gyfer y teuluoedd tlotaf. Mae'r mesurau allweddol yn cynnwys:

i. Cyflwyno agwedd flaengar cyffredinol tuag at Fudd-dal Plant fel bod mwy o adnoddau'n cael eu cyfeirio at y plant tlotaf, er mwyn sicrhau mai'r rhai sydd ei angen sy'n cael y rhan fwyaf.
ii. Cymryd camau sylweddol, gan weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ac awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod pawb sydd â hawl i fudd-daliadau a chredydau treth yn eu derbyn.

4) Dileu'r premiwm tlodi a sicrhau nad yw'r tlotaf yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau drwy:

i. Gefnogi teuluoedd gyda chost tanwydd.
ii. Cefnogi teuluoedd i osgoi dyledion llog uchel parlysol.

5) Torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol drwy:

i. Helpu teuluoedd mewn tlodi difrifol i gefnogi addysg eu plant.
ii. Sicrhau bod cymhelliad gan ysgolion, drwy'r system atebolrwydd, i wella cyrhaeddiad y plant tlotaf.
iii. Sicrhau bod cyllid ysgolion yn targedu'r plant tlotaf.

Am ragor o fanylion am ein gwaith ymgyrchu ac eiriolaeth yng Nghymru, cysylltwch â infowales@savethechildren.org.uk neu 02920 396838

Am ragor o wybodaeth am yr adroddiad ymchwil a gynhyrchwyd gan NPI, cysylltwch â Graham Whitham, Ymgynghorydd Polisi Tlodi y DU, ar g.whitham@savethechildren.org.uk neu 0161 249 5135.

Nodiadau

[1]Yn seiliedig ar y Cyfrifydd Lleiafrif Incwm a ddatblygwyd gan Brifysgolion Loughborough a Chaerefrog ac a ariannwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree. Mae hyn yn amcangyfrif bod ar deulu o ddau oedolyn ac un plentyn (o oedran ysgol uwchradd) angen lleiafrif o £348 yr wythnos i dalu am yr holl dreuliau ar ôl talu rhent. http://www.minimumincome.org.uk/

[2] *Britain's Poorest Children* (2003), *Britain's Poorest Children Revisited* (2005) a *Severe child poverty in the UK* (2007), ar gael gan www.savethechildren.org.uk

[3] Magadi a Middleton (2007). *Severe child poverty in the UK.* Achub y Plant.

[4] Daw'r ffigyrau gan *Household below average income statistics,* yr Adran Gwaith a Phensiynau (2009). Maen nhw'n seiliedig ar y trothwy o 50% o'r canolrif incwm ar gyfer teulu o ddau oedolyn ac un plentyn ar ôl costau tai ar gyfer 2007/08.

[5] OECD (Tachwedd 2009) *Economic Outlook No. 86* http://www.oecd.org/document/9/0,3343,en_2649_34109_44083593_1_1_1_37443,00.html